GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Canllaw Prentisiaeth Gofal Iechyd

## Academi Brentisiaeth 2023

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Academi Brentisiaeth Apprenticeship Academy

apprenticeship.academy@wales.nhs.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw Prentisiaeth Gofal Iechyd? | 3 |
| Sut byddaf yn astudio fel Prentis Gofal Iechyd? | 3 |
| Beth yw cynnwys y rhaglen a pha mor hir mae’n ei gymryd? | 4 |
| Beth fyddaf yn ei wneud ar leoliad? | 4 |
| Pa gefnogaeth sydd ar gael? | 5 |
| Beth yw’r cymwysterau? Faint fydda i’n cael fy nhalu? | 6 |
| Pam ddylwn i ddewis prentisiaeth gyda Hywel Dda? | 7 |
| Beth yw’r gofynion mynediad? | 8 |
| Sut mae gwneud cais? | 8 |
| Beth sy’n digwydd nesaf? | 9 |




# Beth yw Prentisiaeth Gofal Iechyd?

- Mae prentisiaeth yn swydd go iawn, gyda phrofiad ymarferol mewn lleoliadau clinigol gyda chyflog, a'r cyfle i hyfforddi ac ennill cymwysterau wrth i chi weithio
- Rydych chi'n cael eich trin yn union fel pob gweithiwr arall, gyda chytundeb cyflogaeth, cyflog gwirioneddol a gwyliau
- Rhoddir cyfrifoldebau priodol i chi, gan gynnwys rheoli heintiau, cyfathrebu â chleifion, a chefnogi staff ar y ward
- Byddwch yn treulio o leiaf 20% (cyfwerth ag 1 diwrnod yr wythnos) o'ch amser yn cwblhau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, naill ai yn y coleg neu yn y brifysgol
- Byddwch yn hyfforddi i fod yn gwbl gymwys, ac o fewn 7 mlynedd gallech fod yn nyrs gofrestredig!

Lefel 2 → Lefel 3 → Lefel 4 → Gradd Rhan Amser → Nyrs Gymwys!

# Sut byddaf yn astudio fel Prentis Gofal Iechyd?

Mewn prentisiaethau, gelwir hyn yn 'hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith' a dylai fod gyfwerth ag o leiaf 20% o'ch amser. Bydd gennych amser penodedig bob wythnos tuag at eich hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn ystod eich oriau gwaith. Mae hyn o 1 diwrnod yr wythnos i 3 diwrnod yr wythnos yn dibynnu ar lefel yr astudiaeth. Mae pob Prentis Gofal Iechyd wedi cofrestru gyda Choleg Sir Benfro i astudio eu cymhwyster Lefel 2 a Lefel 3. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gennych un diwrnod astudio yr wythnos lle byddwch yn mynychu'r coleg. Bydd eich aseswr yn gosod gwaith ac aseiniadau i chi eu cwblhau i fodloni cymwyseddau'r cymhwyster. Erbyn i chi weithio tuag at eich gradd, bydd gennych dri diwrnod yr wythnos yn y brifysgol i astudio, a bydd y ddau ddiwrnod arall ar eich lleoliad clinigol.

# Beth yw cynnwys y rhaglen a pha mor hir mae'n ei gymryd?

- Bydd cwrs sefydlu cynhwysfawr o fis a fydd yn eich paratoi ar gyfer eich lleoliad a'ch prentisiaeth
- Byddwch yn cael eich cefnogi gan fentor yn y gweithle
- Bydd gennych gyfrifoldebau gwirioneddol ar eich lleoliad i gefnogi gofal cleifion
- Bydd Swyddogion Ymgysylltu ar y safle i gynorthwyo ag unrhyw ymholiadau sydd gennych
- Bydd O leiaf 20% yn amser penodedig ar gyfer hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith
- Bydd Mentor coleg i gefnogi eich astudiaethau academaidd
- Bydd diwrnodau Academi i feithrin hyder, sgiliau a gwybodaeth

Mae'r Rhaglen Prentis Gofal Iechyd yn cymryd 7 mlynedd i'w chwblhau. Gyda'r llwybr prentisiaeth, rydych chi'n gweithio ac yn ei astudio - ennill cyflog wrth ddysgu, felly gall gymryd ychydig yn hirach i'w gwblhau na'r llwybr traddodiadol.

# Beth fyddaf yn ei wneud ar leoliad?

Wrth i'ch prentisiaeth fynd yn ei blaen, bydd eich cyfrifoldebau'n cynyddu yn unol â'ch dealltwriaeth. Yn y flwyddyn gyntaf, gallech fod yn:

- Cyfathrebu gyda chleifion, staff ac ymwelwyr
- Dilyn Cynlluniau Gofal Unigol
- Cefnogi cleifion gyda gofal personol
- Cynorthwyo staff clinigol gyda gweithdrefnau clinigol sylfaenol
- Cymryd arsylwadau sylfaenol
- Paratoi gwelyau ar gyfer derbyniadau newydd
- Sicrhau bod offer yn barod
- Casglu meddyginiaeth o'r fferyllfa
- Cynnal amgylchedd diogel i gleifion, staff ac ymwelwyr

# Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Pan fyddwch ar leoliad bydd mentor lleoliad yn cael ei neilltuo i chi. Mae eich mentor yn arbenigwr yn eu maes ac yn barod i'ch cefnogi ar leoliad. Gallant ddangos tasgau i chi fel eich bod yn gwybod y disgwyliad, byddant yn dirprwyo dyletswyddau i chi ac yn gallu eich arsylwi tuag at eich cymwyseddau cymhwyster.

Ym mhob ysbyty, mae Swyddogion Ymgysylltu sy'n gweithio i Dîm Gweithlu'r Dyfodol. Bydd y Swyddogion Ymgysylltu yn ymweld â chi ar eich lleoliad yn rheolaidd i gael sgwrs a gweld sut yr ydych yn dod ymlaen. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, gall y Swyddog Ymgysylltu eich cefnogi gyda'r rhain. Gall Swyddogion Ymgysylltu hefyd eich cyfeirio at wasanaethau eraill a all fod o gymorth.

Mae'r Academi Brentisiaeth yn cynnwys tîm sydd hefyd yma i'ch cefnogi. Os oes gennych ymholiad am wyliau blynyddol, diwrnodau astudio neu hyd yn oed sut i gael mynediad at hyfforddiant ychwanegol, mae croeso i chi anfon e-bost neu eu ffonio. Gall Tîm yr Academi hefyd eich cefnogi gydag atgyfeiriadau i wasanaethau'r bwrdd iechyd megis Iechyd Galwedigaethol, Gwasanaeth Llesiant Seicolegol Staff neu Grwpiau Staff.

Wrth astudio, byddwch hefyd yn cael mynediad at gefnogaeth y darparwr dysgu. Er enghraifft, mae gan Goleg Sir Benfro Dîm Llesiant, Tîm Cymorth Dysgu a Biwro Cyflogaeth a all eich cefnogi gyda sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae Prifysgol Abertawe yn ddarparwr dysgu arall sy'n cynnal Mentoriaid Academaidd, tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a staff sy'n gallu cefnogi gyda sgiliau astudio megis cyfeirnodi.

Yn rheolaidd, fel prentis byddwch yn cael Adolygiadau Porth. Mae'r rhain yn bwyntiau gwirio yn eich prentisiaeth i wirio eich bod yn gweithio i'r safon gywir. Mae'r Adolygiadau Porth yn ddefnyddiol i gydnabod pa feysydd datblygu a allai fod gennych. Yna gall yr Academi Brentisiaeth gefnogi eich anghenion datblygu yn briodol, trwy roi cynllun cadarn ar waith. Gall hyn gynnwys hyfforddiant ychwanegol mewn meysydd dethol. Mae symud ymlaen i gam nesaf y rhaglen gyffredinol yn dibynnu ar basio'r Adolygiadau Porth, sy'n ystyried llawer o ffactorau gan gynnwys eich ymrwymiad i leoliad a choleg, eich cymhelliant a'ch ymroddiad.

# Beth yw'r cymwysterau a faint fydda i'n cael fy nhalu?

| Lefel y brentisiaeth a theitl y cymhwyster | Cyfnod | Cyflog |
|---|---|---|
| **Lefel 2**<br><br>Tystysgrif mewn Gofal Iechyd Clinigol Lefel 2 | 15 mis | 6 mis o Gyflog Cenedlaethol Prentisiaeth - £5.28 yr awr<br><br>Yn dilyn Adolygiad Porth llwyddiannus ym mis 6 – cynyddu i Fand 2 Atodiad 21<br><br>£15,988 y flwyddyn |
| **Lefel 3**<br><br>Diploma Lefel 3 mewn Gofal Iechyd Clinigol | 15 mis | Gwaelod Band 2<br><br>£20,758 y flwyddyn |
| **Lefel 4**<br><br>Tystysgrif mewn Gofal Iechyd | 24 mis | Brig Band 2<br><br>£21,318 y flwyddyn |
| **Gradd Rhan Amser**<br><br>BSc mewn Nyrsio Cyffredinol Oedolion | 2 flynedd a 9 mis | Brig Band 2<br><br>£21,318 y flwyddyn |

* Mae cyfraddau Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn berthnasol. Y cyfraddau'n gywir ym mis Mawrth 2023.

** Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr hawl i addasu cymwysterau ac amserlenni yn seiliedig ar newidiadau i gymwysterau, gofynion y sector neu gyllid.

# Pam ddylwn i ddewis prentisiaeth gyda Hywel Dda?

**1. Parod am swydd** - Trwy brentisiaethau, byddwch yn dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth y mae eich cyflogwr yn teimlo sydd fwyaf perthnasol i'ch swydd, gan eich gwneud yn fwy cystadleuol a chyflogadwy.

**2. Ennill cyflog wrth ddysgu** - Byddwch yn ennill cyflog ac ni fydd gennych unrhyw ffioedd na dyled ar gyfer hyfforddiant. Mae hyn yn rhoi annibyniaeth ariannol i brentisiaid.

**3. Ennill achrediad proffesiynol** – Mae'r brentisiaeth Gofal Iechyd hefyd yn galluogi unigolion i ennill achrediad proffesiynol, sef cymhwyster neu dystysgrif diwydiant cyfan sy'n dangos bod gennych y profiadau, yn ogystal â'r cymwysterau, i wneud y swydd honno. Erbyn diwedd eich Prentisiaeth Gofal Iechyd, byddwch yn nyrs gofrestredig â chymwysterau llawn!

**4. Profiad** - Bydd gennych brofiad a sgiliau trosglwyddadwy, ar ôl gweithio ar brosiectau a thasgau go iawn mewn amgylchedd gwaith o'r diwrnod cyntaf. Byddwch yn ymgolli ar unwaith yn eich rôl, gan ddysgu sgiliau penodol.

**5. Cefnogaeth** - Bydd eich rhwydwaith cefnogi fel prentis yn enfawr, gyda'ch cyflogwr, cydweithwyr, cydweithwyr prentis, darparwr hyfforddiant a llawer o rwydweithiau eraill yn darparu cefnogaeth bersonol a phroffesiynol.

**6. Gyrfa tymor hir** – Rydym yn cyflogi Prentisiaid er mwyn cynnig swydd barhaol iddyn nhw ar y diwedd!

**7. Mae Hywel Dda yn gyflogwr gwych** – Cenhadaeth y bwrdd iechyd yw rhoi pobl wrth galon popeth a wnawn, gan gyd-weithio i fod y gorau y gallwn fod ac ymdrechu i ddarparu a datblygu gwasanaethau rhagorol.

**8. Rydym yn Gyflogwr Arobryn!** – Enillodd yr Academi Prentisiaethau Raglen Prentisiaeth Orau CIPD yn 2023. Yn 2022, derbyniodd y bwrdd iechyd Wobr Cyflogwyr Cymraeg yn y Gweithle. Dyfarnwyd Gwobr Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwr i Hywel Dda hefyd yn 2021. A llawer mwy!

# Beth yw'r gofynion mynediad?

- Rhaid i chi fod yn berson caredig a gofalgar sy'n angerddol dros helpu eraill
- Rhaid i chi fod yn 16+ oed ym mis Medi 2023
- Mae'n rhaid bod gennych yr hawl gyfredol i weithio yn y DU ac wedi byw yn y DU ers 3 blynedd.
- Rhaid i chi allu dangos parodrwydd i weithio'n galed
- Rhaid i chi fod yn ymroddedig i astudio a gweithio ar yr un pryd, sy'n gofyn am ymroddiad mawr
- Ni ddylai fod gennych gymhwyster Iechyd clinigol Lefel 3 llawn (os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni)
- Rhaid i chi beidio â bod mewn unrhyw addysg ffurfiol a ariannir gan y llywodraeth ar adeg dechrau'r Rhaglen Prentisiaeth Gofal Iechyd

# Sut mae gwneud cais?

Rydym am recriwtio Prentisiaid Gofal Iechyd ar draws ein tair sir. Byddwn yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth ar y dyddiadau canlynol:

| Dyddiad | Lleoliad | Amser |
|---|---|---|
| 28 Mawrth 2023 | Campws Y Graig, Llanelli | 4pm – 7pm |
| 29 Mawrth 2023 | Coleg Sir Benfro | 4pm – 7pm |
| 30 Mawrth 2023 | Coleg Ceredigion Campws Llanbadarn | 2.30-5.30pm |

Byddwn yn cynnal sesiynau gwybodaeth rhithiol ar y dyddiadau canlynol:

| Dyddiad | Lleoliad | Amser |
|---|---|---|
| 5 Ebrill 2023 | Ar-lein dros Teams | 10am – 3pm |
| 11 Ebrill 2023 | | |
| 13 Ebrill 2023 | | |

**Bydd yr hysbysebion byw yn agor ar gyfer ceisiadau ar y 27ain o Fawrth 2023 ar wefan Hywel Dda.**

[Apprenticeship Academy - Hywel Dda University Health Board (nhs.wales)]

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Mynychwch un o'n sesiynau gwybodaeth; naill ai'n bersonol neu'n rhithiol i sgwrsio â ni am y cyfle anhygoel hwn. Cadwch olwg am yr hysbysebion byw ar y 27ain o Fawrth.

Unwaith y bydd hwn yn fyw byddwch yn gallu llenwi ffurflen gais. Cysylltir â chi i roi gwybod i chi am ganlyniad eich ffurflen gais, os byddwch yn llwyddiannus fe'ch gwahoddir i fynychu diwrnod asesu.

Cynhelir y diwrnodau asesu tua diwedd mis Mehefin, pan ddaw'r tymor arholiadau i ben.

- Glangwili a Tywysog Philip – 22 Mehefin 2023
- Llwynhelyg – 27 Mehefin 2023
- Bronglais – 29 Mehefin 2023

Mae'r diwrnodau asesu yn llawer o hwyl ac yn rhoi cyfle i chi ddod i adnabod y staff ac arddangos eich gallu.

Ar ddiwrnodau asesu, bydd angen i chi ddod â'r canlynol:

- Pecyn bwyd a diodydd
- Prawf o hunaniaeth (trwydded yrru safonol neu dros dro neu basbort)
- Prawf o gyfeiriad (cyfriflen banc neu gyfriflen bil cyfleustodau – rhaid iddo fod o fewn y 3 mis diwethaf, neu eich trwydded yrru os yw'n dangos eich cyfeiriad presennol)
- Tystiolaeth ar gyfer gwiriad *DBS* (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) (gweler: [ID checking guidelines for standard/enhanced DBS check applications from 1 July 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)] for more information)

Bydd pob un sy'n mynychu'r diwrnod asesu yn cael eu gwahodd i ddiwrnod adborth – dyma lle byddwn yn trafod y canlyniad gyda chi. Bydd y diwrnodau adborth yn cael eu cynnal yn yr un lleoliad â'ch diwrnod asesu ar y dyddiadau canlynol:

- Glangwili a Tywysog Philip – 11 Gorffennaf 2023
- Llwynhelyg – 12 Gorffennaf 2023
- Bronglais – 13 Gorffennaf 2023

Ar y diwrnod adborth, bydd angen i chi ddod â'r canlynol:

• Prawf o hawl i weithio yn y DU (pasbort DU/Gwyddelig yn ddilys neu wedi dod i ben o fewn y 6 mis diwethaf NEU dystysgrif geni DU/Iwerddon gyda phrawf o rif YG). Bydd angen i ymgeiswyr o'r tu allan i'r DU/Gwyddelod holi a ydynt yn gymwys i gael cyllid prentisiaeth

• Prawf o hunaniaeth (trwydded yrru dros dro neu safonol neu basbort)

• Prawf o gyfeiriad (cyfriflen banc neu gyfriflen bil cyfleustodau – rhaid iddo fod o fewn y 3 mis diwethaf, neu eich trwydded yrru os yw'n dangos eich cyfeiriad presennol)

• Tystiolaeth ar gyfer gwiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) (gweler: canllawiau gwirio hunaniaeth ar gyfer ceisiadau safonol/manwl am wiriad DBS o 1 Gorffennaf 2021 - GOV.UK (www.gov.uk) am ragor o wybodaeth)

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn dechrau eich cyflogaeth fel Prentis Gofal Iechyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Medi 2023. Os na fyddwch yn llwyddiannus y tro hwn, byddwch yn cael cynnig cymorth gennym ni a chan eich coleg lleol, Canolfan Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni.
Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi!